# Cenn@d

MAWRTH 04 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 262


## Diwrnod Dros Gymru

Daeth dros fil o bobl at ei gilydd o Gymru benbaladr ddydd Sadwrn, 28 Chwefror, ar drothwy gŵyl ein nawddsant, i Faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, i weddïo dros Gymru a chlywed am y pethau newydd y mae Duw'n eu gwneud yma heddiw. Fe ddaethon nhw ynghyd – yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, yn bobl hŷn ac yn genhedlaeth newydd, yn arweinwyr ac yn lleyg, yn ddynion ac yn ferched o'r de a'r gogledd, y gorllewin a'r dwyrain, o enwadau traddodiadol ac o eglwysi newydd. Diolch i fudiad 100 i Gymru am y weledigaeth, y trefniadau a'r hyrwyddo oedd wedi bod i baratoi ar gyfer yr ail ddigwyddiad o'r fath a welodd alw'r fath gynulliad o Gristnogion at ei gilydd yng Nghymru. Mae'r mudiad yn bodoli er mwyn ysgogi plannu eglwysi byw ar draws y wlad.



Yn y llun (uchod) fe welir addolwyr ifanc (Gen Z fel y'i gelwir) a gynhaliodd noson o weddi yn Llandrindod y noson cynt. Fe gawson nhw gyfle i weddïo dros bobl yn ystod un o'r gwasanaethau gan ddal gafael yn yr addewid ar ddiwedd Salm 27: 'Yr wyf yn sicr y caf weld daioni'r ARGLWYDD yn nhir y rhai byw.'




Cafwyd negeseuon grymus o anogaeth gan y siaradwyr. Cyfeiriodd Dr Andrew Ollerton o Gymdeithas y Beibl at y gwahaniaeth y byddem yn gallu ei wneud gyda'n gilydd i'n gwlad pe bai cariad Crist yn ein cymell mewn gwirionedd, yn ein gorfodi ac yn ein gyrru yn ein blaenau (2 Corinthiaid 5:14). Canolbwyntio ar y bwriad a welir gan Iesu mewn adnod benodol wnaeth Steff Morris, Llandysul, sef: "Rhaid i mi gyhoeddi'r newyddion da am Dduw yn teyrnasu yn y trefi eraill hefyd. Dyna pam dw i wedi cael fy anfon yma." (Luc 4:43; BNET).

Yn sgil neges Steff, cyfnewidiwyd bandiau garddwrn ag enwau llefydd yng Nghymru oedd ar galonnau'r rhai oedd yno. Mewn grwpiau bychain, cafwyd cyfle i weddïo dros y llefydd hynny yng Nghymru sy'n brin o dystiolaeth fyw i'r Arglwydd Iesu. Fe'n hanogwyd i feddwl, wrth deithio hyd a lled ein gwlad hardd, sut roedd y bobl yn y clwt bychan yma neu'r pentref acw neu'r dref hon yn clywed yr Efengyl heddiw.




Cafwyd cyfnodau o rannu hanesion ac o drafod, o weddi ac o fawl yn ystod y dydd, gyda moliant dwyieithog gan y tîm mawl yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mewn neges ar y cyfryngau cymdeithasol, dyfynnodd Cath Woolridge o'r Mudiad Sound of Wales yr adnod: 'Pan adferodd yr ARGLWYDD lwyddiant Seion, yr oeddem fel rhai wedi cael iachâd; yr oedd ein genau yn llawn chwerthin a'n tafodau yn bloeddio canu. Yna fe ddywedid ymysg y cenhedloedd, "Gwnaeth yr ARGLWYDD bethau mawr iddynt hwy".' (Salm 126:1)

Gan freuddwydio, gweddïo, wylo, canu, dal ati, gobeithio, ildio, eiriol, a chyhoeddi gyda'r eglwys ar draws Cymru heddiw @100.cymru, ychwanegodd mai:

> Iesu ydy'r weledigaeth,
> dyhead ein cenedl,
> y gobaith i Gymru,
> o'r fath ddiwrnod –
> o'r fath Waredwr.

Dyma sylw Keith Williams oedd wedi teithio o Wessex yn Lloegr i fod yno: 'Roedd yr addoli'n fendigedig – amser nid o ymweliad Duw ond o'i breswylfa efo ni. Mae Duw yn dod i aros gyda ni. Fel un sy'n byw yn Lloegr, roedd cael addoli yn Gymraeg yn rhywbeth arbennig iawn. Diolch i 100iGymru, dwi'n credu fy mod wedi derbyn eneiniad, a dwi'n mynd adref yn wahanol. Mae'r Arglwydd yn gweithio, hyd yn oed ar y ffordd adref!'

*Huw Powell-Davies*


Blwyddyn Tomos yn Japan
Tudalen 3

Oedfa Ilston, 20 Ionawr 2026
Joseph Harris ('Gomer') – *parhad*
Tudalen 5

*Llwch Oged*: dathlu gwaith Vernon Jones yng Nghapel y Garn, Bow Street
Tudalen 7

## Gweddi dros yr argyfwng presennol yn y Dwyrain Canol

Duw cariad a thosturi,
wrth inni weld a chlywed y newyddion ar y cyfryngau
am y trais dinistriol diweddar o fewn y Dwyrain Canol,
ac yn benodol y tensiynau rhwng Israel ac Iran,
rydym yn cyflwyno dy fyd drylliedig ger dy fron mewn gweddi.
Gweddïwn dros y bywydau a gollwyd,
dros y rhai sy'n galaru o golli anwyliaid
a thros y rhai sy'n byw mewn ofn a pheryg.
Gweddïwn dros y bobl sydd wedi'u dal yn gaeth
ac sydd angen lloches ddiogel a llwybr clir i ffoi.
Rydym yn hiraethu am heddwch,
ac yn gweddïo y bydd y rhai sy'n rhyfela
yn cyfnewid eu harfau am eiriau.
Cynorthwya ni i wybod sut i weddïo gyda dwyster,
sut i siarad gyda gras a doethineb
a sut i weithredu yn gyfiawn a theg.
Trwy hyn oll cynorthwya ni i gofio ein galwad
i ddilyn Tywysog Tangnefedd.
Rydym yn gweddïo hyn i gyd yn enw sanctaidd Iesu, Amen.

O Dduw trugarog, cyflwynwn ger dy fron
bobl Iran, Israel, Abu Dhabi, Oman a Bahrain,
a'r rhai sy'n hwylio trwy Gulfor Hormuz:
mannau lle mae'r cenhedloedd yn ymladd yn erbyn ei gilydd,
lle mae dronau a thaflegrau'n hedfan uwchben,
plant yn crio mewn llochesi,
a chyrff y meirw'n aros i gael eu claddu.

Arwain yn awr, Dywysog Tangnefedd,
y rhai sy'n mentro gweithio dros heddwch,
y rhai sy'n gofalu am y clwyfedig,
y rhai sy'n ceisio newid ein byd,
y rhai sy'n gweithio dros ddemocratiaeth a hawliau dynol,
a'r rhai sy'n cynghori ein harweinwyr gwleidyddol
fel y disgleiria dy ddoethineb drwodd.

Ysbryd Glân sancteiddiaf,
anadla dy heddwch ar ein byd cythryblus,
cysura rieni'r merched a laddwyd yn yr ysgol gynradd
ym Minab,
perthnasau'r rhai a laddwyd yn Beit Shemesh,
a phawb sy'n galaru yn y dyddiau rhyfelgar hyn.

Ysbrydola Iraniaid sy'n hiraethu am gymdeithas rydd a theg,
a'r rhai fydd bellach yn arwain ac yn llywio'i dyfodol.
Ysbrydola hefyd Israeliaid sy'n gweithio dros heddwch
a chyfiawnder,
yn hiraethu am ddiogelwch a'r cyfle i gymodi a chreu byd
heddychlon a diogel.

Yn dy drugaredd, cynorthwya ni i weithio dros heddwch
hyd yn oed mewn byd sy'n ddialgar, yn llawn casineb ac yn
rhyfelgar.
Amen.

*Aled Davies*

## LLAN LLANAST a Dydd Gweddi'r Byd?

**Rhoddaf orffwys i chi, dewch**
**Rachel Gotobed**

Rwy'n siŵr eich bod wedi clywed am LLAN LLANAST. Mae llawer o eglwysi'n ei ddefnyddio i ddarparu cyfleoedd Crist-ganolog i deuluoedd a phobl o bob oed archwilio ffydd, yn seiliedig ar werthoedd lletygarwch, creadigrwydd a dathlu.

Rwy'n siŵr eich bod hefyd wedi clywed am Ddydd Gweddi'r Byd, sy'n uno pobl mewn gweddi bob mis Mawrth mewn eglwysi ledled Cymru a'r byd.

Ond beth sy'n eu cysylltu? Wel, eleni mae tîm LLAN LLANAST wedi cydweithio â thîm Dydd Gweddi'r Byd i greu gwasanaeth yn seiliedig ar y deunydd a ysgrifennwyd gan Ferched Cristnogol Nigeria – ac mae ar gael yn Gymraeg!

Thema Dydd Gweddi eleni yw 'Rhoddaf orffwys i chi, dewch', ac yn yr adnodd LLAN LLANAST fe welwch yr adnodau a'r cyfarwyddiadau ar gyfer popeth sydd ei angen arnoch i ddadbacio'r adnod hon mewn ffyrdd meddylgar a chreadigol.

Mae'r gwasanaeth yn dilyn arddull LLAN LLANAST, gyda detholiad o weithgareddau i ddewis ohonynt. Mae yna syniadau crefft, syniadau ar gyfer y stori o'r Beibl, gweithgareddau i gyflwyno prif themâu'r adnod, syniadau ar gyfer gweddïau, am bryd o fwyd syml Nigeria a llawer mwy.

Y peth gwych am yr adnodd yw nad oes rhaid i chi ddefnyddio'r cyfan, felly os oes gennych ddosbarth ysgol Sul bach gallwch ddewis beth sy'n addas i chi.

Ond os ydych chi'n teimlo'n fwy anturus, beth am ystyried cynnal sesiwn LLAN LLANAST a gwahodd teuluoedd i ddod draw a chael cyflwyniad hwyliog a diddorol i Ddydd Gweddi'r Byd.

Beth am lawrlwytho'r sesiwn o wefan World Day of Prayer / Messy Church a chymryd cipolwg arno? Rwy'n siŵr y byddwch yn cael eich ysbrydoli.

Cysylltwch â sarah.morris@ebcpcw.cymru am fwy o wybodaeth

Dyma'r ddolen i'r Sesiwn Llanllanast – Dydd Gweddi'r Byd ar eu gwefan

https://www.wwdp.org.uk/wp-content/uploads/2026/01/MC-WDP-session-Welsh.pdf

# Blwyddyn Tomos yn Japan

Helô, bawb! Tomos ydw i, ac es i ar daith genhadol i Japan am flwyddyn, a dwi'n addasu ar hyn o bryd i fod yn ôl yng Nghymru eto! Rydw i wedi dysgu cymaint am Dduw a'i bobl yn ystod y daith hon.

Wrth edrych yn ôl, gallaf ddweud yn hyderus fod Duw wedi fy ngalw i fynd i Japan y llynedd, er bod beth oedd yr alwad yn ei golygu yn rhywbeth a ddysgais trwy'r profiad ei hun yn ystod y flwyddyn. Doedd gen i ddim rhan yn y galw. Ddaeth yna ddim llais o'r nefoedd, fel Saul yn llyfr yr Actau, na rhyw gariad mawr at Japan neu deimlad angerddol bod rhaid imi fynd yno yn dod drosof yn sydyn. Yn hytrach, dechreuais ddysgu'r iaith yn ystod Covid i gadw fy ymennydd i weithio, a gofynnwyd imi ymuno â phatrymau sgwrsio Japaneeg gan yr Undeb Cristnogol yn y brifysgol. Wedi hynny fe wnes i gyfarfod â Christnogion o Japan oedd yn canmol y sefydliad cenhadol OMF !

Roedd yna lawer o gamau eraill a arweiniodd at y flwyddyn hon yn Japan, ond ynddyn nhw i gyd gallaf weld Duw yn fy ngwthio'n araf, ac yn agor drysau a arweiniodd at y flwyddyn hon. Dwi wedi dysgu y gall 'galwad' olygu, yn syml, sut y gallwch chi wasanaethu Duw a manteisio'n ffyddlon ar y cyfleoedd y mae'n eu rhoi ichi.

Trwy gyd-ddigwyddiad, neu efallai synnwyr digrifwch Duw, enwyd y flwyddyn hon hefyd yn Flwyddyn Japan a Chymru. Roedd hyn yn golygu bod yna ychydig o weithgareddau Cymreig yn digwydd yn Japan, ond fe wnaeth i mi hefyd feddwl am y gwahaniaethau diwylliannol rhwng y ddwy wlad. O feddwl am ddwy wlad ar bennau cyferbyniol y ddaear, gyda phensaernïaeth, coginio, hanes a chrefydd gwahanol iawn i'w gilydd, fe gefais fy synnu wrth ddod o hyd i gymaint o bethau tebyg hefyd!

Er bod y diwylliant Cymreig sy'n cydio pentrefi Cymru ynghyd yn wahanol i'r diwylliant sy'n cydio pobl ynghyd yn genedlaethol yn Japan, mae pethau fel gwerthfawrogi'r celfyddydau a hanes, cwrteisi a bod yn ymwybodol iawn o beth sy'n mynd ymlaen o'ch cwmpas, i gyd yn rhannau pwysig o ddiwylliant! Fodd bynnag, mae'r celfyddydau a hanes yn wahanol, yn ogystal â sut i fod yn gwrtais a sut i fod yn ymwybodol o'r hyn



sy'n mynd ymlaen o'ch cwmpas – gallant fod mor wahanol â'r iaith!

Wrth gerdded adref ar gymaint o achlysuron, roeddwn yn cael fy hun yn gorfeddwl am bob cyswllt roeddwn wedi'i gael yn ystod y dydd, gan obeithio fy mod i wedi darllen yr hyn oedd yn mynd ymlaen o nghwmpas yn gywir. Gallaf gofio dwsinau o gamgymeriadau diwylliannol a wnes i yn ystod y flwyddyn, a dwi'n siŵr bod yna nifer dirifedi na fu imi sylwi dim arnyn nhw ar y pryd. Ond yr hyn a'm helpodd drwy'r achlysuron hyn lle roeddwn i wedi codi cywilydd arnaf fy hun oedd rhoi i mi fy hun y gras y mae Duw wedi'i ddangos i mi ym mhob agwedd arall ar fy mywyd!

Crefydd oedd un o'r gwahaniaethau diwylliannol mwyaf yn bendant. Yn Japan mae'n fwy cyffredin cael priodas Gristnogol, ond angladd Bwdhaidd, a hefyd fynychu cysegrfeydd Shinto ar bob gŵyl. Dydy meddwl am unrhyw grefydd fel crefydd unigryw ddim yn gyffredin. Yn lle hynny, mae dal pob gwirionedd sy'n gwrthdaro mewn tensiwn yn ymddangos yn beth naturiol. A dyna pam ei fod yn aml yn cymryd blynyddoedd, os nad degawdau, o fynychu digwyddiadau Cristnogol cyn i ffydd ddod yn bersonol neu'n real.

Yn ystod fy mlwyddyn o wasanaethu o dan y tîm 'gweinidogaeth i'r rhai sydd wedi dychwelyd' (sy'n cwrdd â Japaneaid sydd wedi bod dramor ac wedi dod yn ôl i'r wlad), fe ddes i i nabod amrywiaeth o bobl â gwahanol lefelau o ddiddordeb yng Nghrist. Roedd rhai eisiau ymarfer eu Saesneg, ond byddent yn dal i ymuno efo'r astudiaethau beiblaidd dewisol, lle clywais gymaint o gwestiynau am Gristnogaeth nad oeddwn erioed wedi meddwl amdanyn nhw o'r blaen!

Yn sydyn, fe ddaeth yna gymaint o bethau sydd wedi bod yn rhan annatod o'm bywyd a heb eu cwestiynu gen i, pethau yr oedd yn rhaid imi eu hystyried o'r newydd. Rhai o'r rhain oedd undduwiaeth, y Drindod, bod pechod yn rhywbeth mwy na throseddau difrifol, neu Dduw sy'n caru'n bersonol ac yn maddau inni'n ddiamod. Cefais fy atgoffa bod y gwirioneddau hyn yn anhygoel!

Y rheswm pam fod gan OMF dîm ymroddedig sy'n gweinidogaethu i'r rhai sydd wedi dod yn ôl i Japan ydy bod person o Japan 30 gwaith yn fwy tebygol o ddod yn Gristion yn ystod arhosiad dramor nag ydyw pan mae yn ei wlad ei hun. Mae llu o resymau dros hyn, ond un arwyddocaol yw'r angen diwylliannol i ffitio i mewn. Mae gan Japan ddywediad, fod 'hoelen sy'n sticio allan yn cael ei morthwylio i lawr', hynny yw, cydymffurfio â phawb arall. Mae archwilio Cristnogaeth yn wahanol yn Japan, ond yn aml mae'r archwilio'n teimlo fel cydymffurfio wrth fyw yng ngwledydd y Gorllewin. Felly, gall yr hyn a allai ddechrau fel awydd syml i gydymffurfio arwain at archwiliad gwirioneddol o'r ffydd!

Ond, mae parhau i wneud yr archwilio yma wrth ddychwelyd i Japan yn anodd, oherwydd yn sydyn dydych chi ddim yn cydymffurfio. Dyma pam

(parhad ar y dudalen nesaf)

## Blwyddyn Tomos yn Japan

*(parhad o dudalen 3)*

mae gweinidogaeth ymhlith rhai sy'n dychwelyd o dramor mor bwysig. Gallwn helpu'r rhai sy'n dychwelyd gyda'r sioc ddiwylliannol o ddod yn ôl ac ailaddasu i'w diwylliant eu hunain, a'u cysylltu efo eglwysi a Christnogion os ydyn nhw am barhau i archwilio ffydd ar ôl dod adref. Fel arall, bydd llawer yn colli eu diddordeb gwirioneddol wrth i bwysau cymdeithasol a phrysurdeb bywyd gymryd drosodd.

Roedd yn hyfrydwch i mi gael mynychu dau fedydd yn ystod y flwyddyn, a'r ddwy a fedyddiwyd yn dangos ochrau cyferbyniol y weinidogaeth i'r rhai sy'n dychwelyd. Y gyntaf oedd gwraig o Japan oedd wedi bod yn mynychu digwyddiadau Cristnogol dramor ac wedi bod yn ôl yn Japan am ddegawdau cyn y daeth i ffydd o gwbl. Yr ail oedd myfyrwraig a ddaeth yn Gristion ar ôl byw blwyddyn dramor. Ar ôl dyfnhau ei ffydd ac ailaddasu i ddiwylliant Japan, roedd yn barod i wneud datganiad cyhoeddus trwy gael ei bedyddio.


Gyda hyn mewn golwg, dwi'n eich annog i wahodd bobl o Japan i'ch eglwysi a'ch cartrefi, gan feddwl efallai mai dyma'r cyfle cyntaf a'r gorau iddyn nhw glywed am Grist. Hefyd, wrth lywio drwy gymhlethdodau diwylliant gwahanol, roedd derbyn lletygarwch syml fel cael eich gwahodd draw am baned o de yn golygu cymaint i mi yn Japan. A dwi'n siŵr y bydd hynny yr un fath i bawb o dramor sy'n byw yn ein cymunedau.

Yn Japan, gweithiais gyda Christnogion, cymaint ohonyn nhw'n bobl wahanol i'w gilydd, ond roedden ni i gyd yn unedig yn y nod o wasanaethu Duw, caru ei bobl a rhannu'r Efengyl. Dwi'n gobeithio parhau i wneud hyn gyda'r amrywiaeth syniadau a chredoau diwinyddol sydd gan bobl mewn eglwysi a phentrefi Cymreig ar hyd a lled Cymru. Dwi'n gweddïo y gallwn ni ogoneddu Duw gyda'n gilydd.

Bu TOMOS EDWARDS yn gwasanaethu yn Japan gydag OMF

# 'Ond pan fyddi di'n gweddïo' – Lansio Ap Gweddi Newydd EBC

Yn ei lyfr *Gemeinsames Leben*, mae Dietrich Bonhoeffer yn ysgrifennu, "Mae cymdeithas Gristnogol yn byw ac yn bod drwy eiriolaeth ei haelodau dros ei gilydd; fel arall, nid yw'n llwyddo." Mae llawer o sôn wedi bod am ddirywiad yr enwadau traddodiadol yn ein gwlad yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, ac felly mae'n ymddangos yn bwysicach nag erioed ein bod yn ein cymhwyso ein hunain i ddisgyblaeth gweddi.




Awgrymwyd y syniad am ap ar gyfer ffôn symudol a fyddai'n ein hannog a'n helpu fel enwad ledled Cymru gyfan yn 2023. Mae'n gyffrous, felly, ein bod yn lansio Gweddi.Prayer ar 5 Mawrth. Mae'r ap ei hun yn ddigon syml, ac mae'n cynnwys tri dyddiadur gweddi:

- dyddiadur gweddi cenedlaethol i uno'r eglwys gyfan wrth ddod â materion pwysig i'r Arglwydd,
- dyddiadur gweddi sy'n benodol i bob henaduriaeth, fydd yn gwneud yr un peth ar lefel leol,
- dyddiadur gweddi personol y gall y defnyddiwr ei greu ei hun ac a fydd yn gwbl breifat.

Trwy'r cyfuniad hwn o weddi gyfunol a phersonol gobeithiwn y bydd yr ap hwn yn tanio fflamau ein hangerdd am weddi.

Mae disgyblaeth bob amser yn angenrheidiol mewn gweddi, ac ni fydd unrhyw declyn neu ddarpariaeth dechnolegol byth yn cymryd ei lle. Cawsom gyfle i fyfyrio ar hyn pan awgrymodd y contractiwr, yn ystod y broses o lunio a datblygu'r ap, ein bod yn ei droi yn rhyw fath o gêm. Yn wir, roedd yn blwmp ac yn blaen yn ei asesiad o'r posibilrwydd y byddai'r ap yn llwyddo pe na baem yn cyflwyno elfen o hwyl gystadleuol iddo. "Dwi gant y cant yn siŵr," meddai, "y bydd yn methu.

Gan dderbyn mai dyma sut mae bron pob ap arall yn gweithio a rhoi'r ddadl o'r neilltu, doedden ni ddim yn awyddus i'r ap Gweddi.Prayer fod yn gystadleuaeth rhwng gweddïwyr! Mewn man arall y mae gwobr y gweddïwr: 'Ond pan fyddi di'n gweddïo, dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel, a bydd dy Dad sydd yn gweld yn y dirgel yn dy wobrwyo.' (Mathew 6:6)

*Owen Griffiths*

Manylion ymuno yn y cyfarfod i'w cael uchod neu ar wefan yr enwad: [Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Eglwys Bresbyteraidd Cymru]

# Oedfa Ilston, 20 Ionawr 2026
# Joseph Harris ('Gomer') – *parhad*

**2. Emynyddiaeth**
Prin y gellir ystyried Gomer yn un o brif emynwyr y Cymry, yn yr un dosbarth â Pantycelyn, neu Morgan Rhys neu ei gyfoeswraig Ann Griffiths, neu â Bedyddwyr eraill fel Gwili ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Meddai'r Athro Glanmor Williams, gan adleisio sylwadau T. M. Bassett:

> Yn yr emynau a gyfansoddodd Gomer ei hun, o'r braidd y gellir hawlio ei fod yn un o'r telynegwyr ysbrydoledig ... Nid ymarllwys angerdd personol ei brofiad ei hun y mae, yn gymaint â lleisio testun mawl y gynulleidfa gyfan. Cyfansoddodd o'r pen yn hytrach nac o'r galon, a chanfyddir elfen nodweddiadol ... o'i hoffter o 'ddefnyddioldeb' yn ei emynau.

Gwelir eto mai fel golygydd a wnaeth ei waith pennaf, a'i gyfrol *Casgliad o Hymnau o'r Awdwyr Gorau* (1821) oedd blodeugerdd fwyaf poblogaidd hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O droi at *Caneuon Ffydd*, gwelir bod hanner dwsin o'i emynau wedi goroesi, a diau y byddwch yn gyfarwydd â'r rhan fwyaf ohonynt:

- 'Dewch, bawb sy'n caru enw'r Oen, deffrown alluoedd cân', efelychiad o benillion Samuel Stennett ac Anne Steele;
- 'Gras, o'r fath beraidd sain, i'm clust hyfrydlais yw', sy'n gyfieithiad o waith Philip Dodderidge;
- 'Dechreuwch, weision Duw, y gân ddiddarfod, bêr', cyfieithiad eto o waith Isaac Watts; ac yna'r emynau gwreiddiol:
- 'Cyduned y nefolaidd gôr a llwythau dynol-ryw/ i ganu'n llon â llafar lef mai cariad ydyw Duw', sydd fwyaf cyfarwydd ar y dôn 'Diadem';
- Yr emyn am y Beibl: 'Am Air ein Duw rhown â'n holl fryd soniarus fawl drwy'r eang fyd/ Mae'n llusern bur i'n traed heb goll, mae'n llewyrch ar ein llwybr oll'; ac yn olaf:
- 'O am deimlo cariad Iesu, yn ein tynnu at ei waith'.

Petai hi ond am y rhain, byddai enw Gomer yn parhau.

**3. Y Wasg Gyfnodol**
Erbyn blynyddoedd aeddfedrwydd Gomer roedd Cymru yn newid yn ddirfawr. Roedd ei phoblogaeth yn amlhau'n sylweddol, roedd diwydiannu eang yn digwydd, yn enwedig ym meysydd haearn Blaenau Morgannwg a Gwent ac yng ngweithfeydd copr gwaelod Cwm Tawe. Roedd crefydd Ymneilltuol yn lledu'n rhyfeddol o gyflym, a llythrennedd ymhlith y werin yn cynyddu. Roedd terfynau gwybodaeth yn ehangu ac awydd y bobl am gael eu goleuo'n dwysáu. Er mwyn ymateb i'r sefyllfa hon, yr hyn a wnaeth Gomer yn Ionawr 1814 oedd cyhoeddi'r wythnosolyn Cymraeg cyntaf erioed. Dwy fil o gopïau oedd cylchrediad *Seren Gomer*, â'i phedair tudalen yn gyforiog o newyddion seciwlar a chrefyddol. Roedd yn gynhwysol yn hytrach nag yn gyfyng sectyddol ei naws, a'i phris oedd chwe cheiniog a dimai. 'Uchelgais Gomer', meddai Glanmor Williams, 'oedd peri i'r wasg gyfnodol ymgartrefu yn y Gymru newydd a oedd yn prysur wawrio o'i gwmpas'. Rhwng hynny ac Awst 1815 ymddangosodd 85 rhifyn, ac er i hanner dwsin o wŷr ariannog Abertawe fuddsoddi yn y fenter, erbyn y diwedd roedd yn rhedeg ar golled o fil o bunnoedd.

Nid un i ddigalonni oedd Gomer. Aeth ati yn 1818, erbyn hyn gyda chymorth ei fab John, 'Ieuan Ddu', a brentisiwyd fel argraffydd, i ail-lansio'r fenter fel cylchgrawn, bob pythefnos i ddechrau, ac yna, yn 1820, yn fisol. Erbyn hynny roedd rhwydwaith o werthwyr trwy Gymru wedi'i sicrhau, a'r fenter bellach yn llwyddiant digamsyniol.

Yn ogystal â chynnwys newyddion cenedlaethol a thramor a gwybodaeth leol ynglŷn â ffeiriau a marchnadoedd a fyddai'n arfer ymddangos yn yr hen almanaciau, roedd cynnwys y *Seren* yn adlewyrchu argyhoeddiadau craidd Gomer fel pregethwr ac Ymneilltuwr. Byddai'n sôn yn aml yr angen i ymagweddu'n gywir a byw'n foesol; am ddrygau'r fasnach ddiod, am heddwch rhyngwladol a'r angen i ddileu'r farchnad caethion; am y genhadaeth dramor ac am waith y Feibl Gymdeithas. Byddai hefyd yn rhannu ei farn ar faterion gwleidyddol. O ran ei wleidyddiaeth, Chwig ydoedd, yn hytrach na radical. Nid dymchwel y drefn oedd ei nod ond ei diwygio fesul tipyn, fel y dywed Glanmor Williams eto: 'Diwygiwr cymedrol, gofalus oedd Gomer ar y gorau'. Eto, mynnai gefnogi'r tlawd a'r anghenus. a'i safbwyntiau'n adlewyrchu gwerthoedd y lliaws o aelodau newydd oedd yn dylifo i mewn i'r capeli Ymneilltuol.

Cydoesai'r *Seren* â thwf y mudiad eisteddfodol. Eglwyswyr oedd llawer o'i arweinwyr: Carnhuanawg, Tegid, Daniel Ddu o Geredigion ac eraill. Ond, os oeddent yn cefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, roedd croeso i'w gwaith ar ei cholofnau. 'It may be urged that the editor is a Dissenter', meddai wrth W. J. Rees, Casgob, un o'r 'hen bersoniaid llengar', 'true; but he is not so in *Seren Gomer,* there he is nothing but a Welshman'. Arwydd o'i sêl dros yr iaith a'i hynafiaeth oedd iddo arddel yr enw barddol 'Gomer', yn ôl y chwedl am Gomer mab Jaffeth, tad tybiedig y genedl Gymreig.

Themâu fel y rhain fyddai'n cael eu gwyntyllu ar dudalennau'r *Seren*, ac erbyn dechrau'r 1820au cydnabyddid fod sylwadau Gomer yn llywio'r farn gyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n para yn hir.

Bu farw Joseph Harris ar 10 Awst 1825 a'i gladdu yn mynwent Eglwys Fair, Abertawe. Roedd yn 52 oed a'i glod wedi mynd ar led nid yn unig ymhlith ei gyd-Fedyddwyr ond trwy Gymru gyfan. Ergyd enbyd iddo flwyddyn a hanner ynghynt oedd colli ei fab, Ieuan Ddu, oedd yr un mor ddiwyd ac athrylithgar â'i dad, ac yntau wythnos yn brin o gyrraedd ei 21 oed.

Gan i ni ddyfynnu Glanmor Williams sawl gwaith yn barod, cystal iddo ef gael y gair olaf: 'Ef oedd un o'r cyntaf o'r cenedlaethau hynod weithgar ac egnïol hynny o weinidogion a fu'n arweinwyr y genedl yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.'

Ac eto: 'Y Wasg Gymraeg yn Oes Victoria a luniodd farn genedlaethol Cymru ac a roes fynegiant iddi. Yn natblygiad y wasg honno rhaid cydnabod Gomer fel un o'i phrif arloeswyr a chymwynaswyr.'

Mae'n briodol, felly, ddau can mlynedd yn ddiweddarach, ein bod yn dathlu ei gyfraniad yn yr oedfa hon [Oedfa Ilston].

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

## Y GRAWYS – WYTHNOS 3

# Cysoni hunaniaeth a phrofiad




### Darlleniad

*2 Corinthiaid 5:11–21*

### Myfyrdod

Mae digwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf hyn wedi tanlinellu rhyng-gysylltiad ein bywydau, nid yn unig ar lefel y gymuned leol, ond yn rhyngwladol. Ond er gwaethaf pwysau'r dystiolaeth sy'n dangos yr angen i ni ddod at ein gilydd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ddynoliaeth gyfan, mae'n ymddangos bod y grymoedd sy'n ein tynnu ar wahân yn cryfhau. Gall deimlo fel petai cymdeithas yn mynd yn llawer mwy dig a gelyniaethus.

Gyda'i galwad i'r Weinidogaeth Gymodi, mae gan yr Eglwys gyfle i ddod â gobaith ac iachâd drwy wrando ar y boen sydd dan y dicter: colli gobaith am y dyfodol, ymdeimlad o ddirywiad neu ddiffyg cyfleoedd, dieithrio, arwahanrwydd neu deimlo heb gefnogaeth neu nad oes neb yn poeni amdanoch. Mae profiad bugeiliol yr Eglwys yn ein tywys tuag at wrando pwrpasol, sydd nid yn unig yn ymwneud â chlywed poen pobl, ond bod yn ymwybodol o'u hanghenion ac eiriol dros eu hawliau.

Un o'r prif rwystrau rhag dod â phobl at ei gilydd i weithio ar gyfer dyfodol gwell yn aml yw'r diffyg ymdeimlad o orffennol a rennir. Mae gwahanol brofiadau a safbwyntiau ynglŷn â'r gorffennol yn ffurfio rhaniadau dwfn a gall anghyfiawnderau neu wrthdaro yn y gorffennol ffurfio cysgod mawr dros gymunedau. Mae'r Eglwys yn dod â'r gobaith o gymod i'r cwestiynau hyn a'r argyhoeddiad y gellir ffurfio perthnasoedd newydd o barch, gwirionedd a chyfiawnder hyd yn oed lle na ellir dad-wneud anghyfiawnderau'r gorffennol.

Nid yw'r Eglwys yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn o raniadau – ddoe neu heddiw – o bellter ond yn hytrach fel rhan o'r gymuned, yr effeithir arni gan yr un pethau sy'n brifo a'r un tensiynau. Mae rôl arwain yr Eglwys yn golygu bod ganddi gyfrifoldeb arbennig i gymryd rhan mewn hunan-fyfyrio beirniadol ac i fodelu haelioni a gras wrth gymryd camau sy'n gwneud ein hymrwymiad i gymodi yn rhai gwirioneddol a gweladwy.

Gwnawn hynny yn ymwybodol bod rhodd Duw o gymod ar gael i bob un ohonom, ar lefel bersonol, fel ffynhonnell adnewyddu a gobaith. Gall y neges hon fod yn achubiaeth i'r sawl sydd efallai wedi cychwyn ar lwybrau niweidiol neu ddinistriol i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd yn ôl i le o berthyn a chysylltiad.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Pan fyddwch chi'n meddwl am y prif glwyfau sy'n sail i densiynau yn eich cymuned, beth sy'n dod i'r meddwl?
- Ble welwch chi'r rhain yn cael eu cyfeirio atyn nhw neu eu trafod?
- Ydych chi'n gweld yr Eglwys yn dod â gweledigaeth o gymod i'r cwestiynau hyn? Os nad ydych, pam?

### Gweithredu

- Nodwch gyfleoedd i weddïo am gymodi yng nghyd-destun eich eglwys. Allech chi fod yn fwriadol ynglŷn ag enwi rhaniadau penodol yr hoffech eu gweld yn cael eu gwella?
- Archwiliwch gyfleoedd i gyfathrebu am gymodi y tu hwnt i'r eglwys, gan gynnwys y wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol, sut y gellid defnyddio'r rhain i fynd i'r afael â materion poenus yn eich cymuned?
- Ystyriwch gynnig astudiaeth Feiblaidd ar thema cymodi i archwilio pa faterion y mae hyn yn dod i'r amlwg yn eich cyd-destun.

### Gweddi

Duw trugaredd a thosturi,
Gweddïwn y gallwn fod yn driw i'th alwad
i weithio dros gymod o fewn ein cymunedau.
Boed i ni barhau i herio ein hunain
i ymestyn tu hwnt i'n parth o gysur
i fod yn agos at y rhai sy'n ymdrechu.
Helpa ni i wrando gyda thosturi a phwrpas,
yn enwedig pan fydd profiadau pobl eraill
yn heriol neu'n annifyr.
Cadw o'n blaenau'r gobaith
hyd yn oed lle mae briw y gorffennol wedi bod yn fawr
a'r clwyfau'n ddwfn
gellir adnewyddu popeth yn dy gariad.
Amen.

S4C

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 8 Mawrth, am 7:30yh – Diwrnod Rhyngwadol y Merched**
Ar ddiwrnod Rhyngwladol y Merched, mae Lowri Morgan yn Llundain i gwrdd â menyw ifanc sy'n teithio'r byd fel gohebydd tramor. Mae Caitlin Kelly, sy'n byw ac yn gweithio yng ngorllewin Affrica, yn ymwybodol iawn o'r ormes a'r anghyfiawnder sy'n llesteiro bywydau miliynau o fenywod. Ac mae talent, creadigrwydd ac arweiniad Caitlin yn esiampl ddisglair i eraill. Cawn fwynhau gwledd o emynau a pherfformiad gan y ddeuawd ifanc Hannah Edwards ac Eiriana Jones-Campbell.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 8 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Andrew Settatree

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 8 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon Jenny Knott**
Oedfa dan arweiniad Jenny Knott

# *Llwch Oged*: dathlu gwaith Vernon Jones yng Nghapel y Garn, Bow Street

Daeth cynulleidfa niferus i Gapel y Garn, Bow Street, nos Wener, 20 Chwefror, i gyfarfod arbennig o'r Gymdeithas Lenyddol i ddathlu a mwynhau gwaith y bardd lleol Vernon Jones ar drothwy ei ben-blwydd yn 90 oed. Arweinydd y noson oedd Llinos Dafis, a hi hefyd fu'n gyfrifol am lunio a saernïo'r cyflwyniad.

Cafwyd cyfle i glywed detholiad o gerddi Vernon o'i dair cyfrol o farddoniaeth – *Llwch Oged* (1968); *Gogerddan a Cherddi Eraill* (1982) ac *Y Llafn Golau* (2000) – yn ogystal â'i waith mwy diweddar.

Dros y blynyddoedd mae Vernon wedi ennill nifer fawr o wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn eisteddfodau lleol ledled Cymru. Ym mis Tachwedd 2025, enillodd y wobr gyntaf yng Ngŵyl Gerdd Dant Aberystwyth am ei dribannau i'r 'Tymhorau', a hyfryd oedd gwrando ar ddehongliad Enid a Mirain ohonynt, i gyfeiliant Llio Penri ar y delyn.

Gan ddechrau wrth ei draed, fel petai, yn ei gerdd i Ben-y-garn, mae Vernon yn cyfeirio at drindod o Gapel y Garn a fu'n fawr eu dylanwad arno'n blentyn. Y tri hyn oedd: ei weinidog, sef y Parch. Wallace Thomas, 'yn bachu'r lamp uwchben y praidd'; y cerddor J. T. Rees – 'tywalltai olew ar dân y mawl'; a'r 'Gamaliel' Dewi Morgan (Dewi Teifi), 'bardd penwyn y deml'. Pur wahanol oedd ei brofiad tu ôl i'r festri yng nghwmni 'Pregethwr' arall, sef Niclas y Glais, mewn cerdd a drafodwyd yr Athro Gruffydd Aled Willliams:

> Wrth gefn y festri
> rhannodd offrwm dwy Wdbein
> rhwng pedwar crwt a'r wal.

Ond eto, bu yntau'n ffynhonnell ysbrydoliaeth i'r bechgyn ifanc i feithrin eu ffydd:



Vernon yn torri'r gacen ben-blwydd, gyda chymorth ei wraig Dilys a Swyn, wyres



Enid a Mirain, gyda Llio wrth y delyn

> Gwnaeth y pethau bychain
> bachgennaidd
> A bu i ninnau gadw'r ffydd.

Mae cyfraniad Vernon i Gapel y Garn dros y blynyddoedd wedi bod yn un eithriadol, ac yntau'n flaenor ers 55 o flynyddoedd ac yn mynychu'r oedfaon bob Sul. Felly, nid annisgwyl deall bod yr emyn yn bwysig iddo, fel y dywed yn ei soned i'r emyn:

> Pan gwrddo dau neu dri ar noson arw
> Ar gwr y mynydd yn y capel plaen,
> I sôn am fywyd ac i sôn am farw
> Tydi sy'n gosod ar brofiadau raen;
> Mae ymchwydd cariad yn dy eiriau'n
> cronni
> A moliant oesau wrth dy ganu'n tonni.

Cyfansoddodd nifer helaeth o emynau, a chafwyd cyfle i werthfawrogi nifer ohonynt yn ystod y noson. Dewis Eleri Roberts, a fu'n mynychu dosbarthiadau Vernon ar y gynghanedd, oedd dehongliad teimladwy Côr Pantycelyn o'i emyn 'Deisyfiad': 'Anadla, Iôr, y Gwanwyn fel awel dros ein tir / I ailddihuno Cymru o gwsg gaeafau hir', ac fe ganodd Côr y Garn a'r Noddfa ei emyn o fawl i'r Gwasanaeth Iechyd.

Cyflwynodd plant hynaf Ysgol Rhydypennau eu teyrnged i Vernon ar ffurf ffilm yn eu dangos yn astudio rhai o'i gerddi i adar ac afonydd lleol, a'u hysbrydolodd i roi cynnig ar lunio'u cerdd eu hunain.

Cafwyd teyrngedau hefyd gan y beirdd lleol Huw Ceiriog ac Anwen Pierce – yn cwmpasu'r dwys a'r ysgafn:

> Ni fu yr Awen yn benyd – erioed
> Yng Ngaerwen drwy fywyd.
> Bardd y geiriau hardd o hyd
> A'n meistr wyt ym Mowstryd.
>
> *Huw Ceiriog*

Dyma gywydd Anwen, sy'n crynhoi dawn ac amrywiol ddiddordebau Vernon:

> O du'r Gaer y daw'r geiriau
> a swyn un gŵr sy'n eu gwau,
> yn ddyn gwâr a'i ddawn gywrain
> yn creu patrwm cwlwm cain,
> penillion sy'n lliwio'n llên,
> rhoi gwerth i bwythau'r garthen.
>
> O'r caeau y daw'r cywydd,
> o'i ardd a'i ros y gerdd rydd,
> ias ei gân o'i filltir sgwâr,
> rhodd ei awen o'r ddaear.
>
> Ei gri o stand y Piod
> a'i gae o lais a dry'n glod;
> rhoi gwe wyrthiol i'r garthen
> wna geiriau hud bardd Gaer-wen,
> a'i Bow Stryd i gyd yn gwau
> yn emyn o batrymau.

Fel y cyfeiria Anwen, bu Vernon yn gefnogwr brwd i'r Piod, tîm pêl-droed Bow Street, ers blynyddoedd lawer ac ef yw Llywydd Anrhydeddus y clwb. A detholiad o'i gerdd am gêm ddarbi go danbaid rhwng y Piod a'r Brain (tîm y Borth) a gyflwynodd Gareth William Jones.

Yn ei gerdd 'Athrawes' mae Vernon yn talu teyrnged i Dilys, ei wraig a'i gymar barddol, a fu'n athrawes ysgol Sul yng Nghapel Pen-rhiw am dros ddeugain mlynedd:

> Ar gwr y rhywiog weryd
> Y mae un yma o hyd
> Na chlwydodd o'i chaledwaith
> Un dydd o'i haberthol daith.
> Egni oes hi roes yn rhad
> Yn rhinwedd ei chyfraniad.

I gloi'r cyfarfod, canodd y côr yr emyn a luniwyd ar y cyd gan Vernon a Dilys, ar y dôn 'Bwlchcoch', a gyfansoddwyd gan arweinydd y côr, Alan Wynne Jones. Yn yr emyn hwn cawn ein hannog i fuddsoddi 'ein gobeithion / ym mywyd Iesu Grist', oherwydd 'efe sydd yn ein codi / o bob rhyw ddyfnder trist'. Ac fel y dywed y cytgan:

> Rhaid i'n ymddiried ynddo,
> mae'i gariad yn parhau
> a'i Dduwdod fel ei ddyndod
> sy'n fodd i lawenhau.

Yn dilyn y cyfarfod, roedd cyfle i rannu cacen i ddathlu pen-blwydd arbennig Vernon, gan ddiolch iddo am ei gyfraniad i fywyd crefyddol ei fro ac i draddodiad barddol Cymru.

A chwarter canrif wedi mynd heibio ers cyhoeddi ei gyfrol ddiwethaf, o ystyried ei gynnyrch cyfoethog ers hynny, mae'n sicr yn hen bryd cyhoeddi dilyniant iddi.

*Marian B. Hughes*

# Cymorth Cristnogol – y Cwrdd

Mae gwahoddiad cynnes iawn i chi ymuno â thîm Cymorth Cristnogol Cymru ar gyfer cyfarfodydd boreol arbennig ym mis Mawrth – 17 Mawrth ym Mhenarth ac 18 Mawrth yn Wrecsam – pan fyddwn yn cyflwyno gwaith ein partner, Beacon of Hope o Kenya.

Y siaradwyr fydd:

- Janet Ngombale, Rheolwr Rhaglen a Phartneriaeth Cymorth Cristnogol yn Kenya,
- Jane Wathome, sefydlydd Beacon of Hope, partner Cymorth Cristnogol yn Nairobi, fydd dan sylw yn ymgyrch Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, 10–17 Mai.

Bydd apêl Wythnos Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar brofiad mamau yn Nairobi sy'n brwydro'n ddyddiol i fwydo'u plant llwglyd. Mae'r argyfwng hinsawdd yn amharu ar y cyflenwad bwyd ac yn golygu bod prisiau bwyd yn codi ac yn rhy ddrud ar gyfer nifer helaeth o deuluoedd. Trwy fenter ysbrydoledig Imarisha Kilimo ('cryfhau amaethyddiaeth' yn Swahili), rydym yn helpu teuluoedd i sicrhau bywoliaeth gynaliadwy ac i dyfu bwyd maethlon i fynd i'r afael â straen ddi-baid tlodi trefol.

Ymunwch â ni am fore arbennig o gymdeithasu a straeon ysbrydoledig gyda Janet a Jane yn ystod eu hymweliad byr â Chymru. Cawn gipolwg ar ein gwaith dyngarol yn fyd-eang a'n hymgyrchoedd cyfredol, yn ogystal â rhannu syniadau creadigol am godi arian. Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn dysgu sut y gallwn wneud gwahaniaeth parhaol yn yr ymdrech yn erbyn tlodi.




## Y Cwrdd | The Gathering

📅 Dydd Mawrth, 17 Mawrth, 10am–12.45pm
📍 Eglwys y Bedyddwyr, Ffordd Stanwell, Penarth
👉 Cofrestrwch ar-lein: Y Cwrdd 2026 | Christian Aid

📅 Dydd Mercher, 18 Mawrth, 10am–12.45pm
📍 Capel y Groes, 10 Stryd Holt, Wrecsam, LL12 7AG
👉 Cofrestrwch ar-lein: Y Cwrdd 2026 | Christian Aid

cymorth cristnogol

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru